# Cynllun Monitro a Gwerthuso

**Mae ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft yn nodi sut rydym yn bwriadu monitro a gwerthuso cynnydd ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, ei bolisïau a'i amcanion. Uchelgais Gogledd Cymru, fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, fydd yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso, gan weithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gasglu data a thracio cynnydd yn erbyn ein mesurau a'n dangosyddion arfaethedig.**

Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys mesurau allweddol ac ategol yn seiliedig ar amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, yr Arfarniad Llesiant Integredig, a chysylltiadau agos â Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae mesurau allweddol yn cynnwys mynediad at gludiant cyhoeddus, gweithio o bell, teithio llesol (cerdded, olwyno a beicio), gwasanaethau bysiau, a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd y dull hwn yn helpu i ddangos sut mae ein cynnydd rhanbarthol yn cyfrannu at dargedau cenedlaethol ar gyfer newid moddol a datgarboneiddio.

Er mwyn helpu'r CJC ac awdurdodau lleol i ymgymryd â'r gwaith monitro a'r gwerthusiad a'i flaenoriaethu, rydym wedi datblygu Teclyn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru i helpu i dracio a chofnodi data a chynnydd dros gyfnod y cynllun.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru a bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar ôl tair blynedd i asesu a yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni ei ddeilliannau disgwyliedig, gan ddarparu gwerth am arian ac a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Bydd hyn yn bwydo i mewn i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol, a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y dyfodol.

















